# Strategaeth Hybu'r Gymraeg 5 Mlynedd Cyngor Abertawe

## 2024–2029




Cyngor **Abertawe**
**Swansea** Council

# Cyflwyniad

**Dyma ail strategaeth hybu'r Gymraeg pum mlynedd y cyngor ac mae'n nodi sut y byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn Abertawe.**

**Rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol, cydweithwyr a phreswylwyr Abertawe i lunio'r strategaeth hon gan sicrhau ei bod yn ystyrlon, yn briodol ac yn gyraeddadwy.**

**Bydd y strategaeth hon yn bodloni ein gofynion statudol o dan ddeddfwriaeth y Gymraeg a hefyd yn cefnogi targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.**

"Y flwyddyn 2050: Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru."

**Nod hirdymor Cyngor Abertawe yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Abertawe, hyrwyddo ymwybyddiaeth a sicrhau presenoldeb y Gymraeg ar draws ein holl gymunedau. Rydym yn ymdrechu i greu cyfleoedd i bobl o bob lefel sgiliau Cymraeg ymarfer a defnyddio'r Gymraeg mewn amgylchedd croesawgar, cefnogol a diogel. Rydym hefyd am gysylltu â'r rhai nad ydynt efallai'n adnabod yr iaith na'u gwerthoedd.**



# Cyd-destun Polisi a Deddfwriaeth

## Mesur y Gymraeg 2011

### Safonau'r Gymraeg

Mae gofyniad statudol ar awdurdodau lleol i lunio strategaeth 5 mlynedd i hybu'r Gymraeg o dan Safonau'r Gymraeg (Rhif. 1) Rheoliadau 2015 (Safonau'r Gymraeg 145 a 146).

Mae'n ofynnol i'r Cyngor:
- Lunio a chyhoeddi'r strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut mae'r Cyngor yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn yr ardal.
- Cynnwys targed ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal erbyn diwedd y cyfnod pum mlynedd.
- Cynnwys datganiad sy'n esbonio sut rydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw.

Yn ogystal â bodloni ein gofynion o dan Safonau'r Gymraeg, mae gan y strategaeth hon gysylltiadau agos iawn ag ystod o strategaethau, polisïau ac amcanion cenedlaethol a lleol gan gynnwys:

- **Strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Llywodraeth Cymru:**

Y targedau cyffredinol ar gyfer y strategaeth hon yw:
1. Nifer y siaradwyr Cymraeg i gyrraedd 1 miliwn erbyn 2050.
2. Cynyddu canran y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg bob dydd, ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau, o 10% (2013-2015) i 20% erbyn 2050.

- **Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Abertawe 2023–2032**

Mae'r cynllun yn amlinellu ein cynigion i wella addysg cyfrwng Cymraeg drwy wella'r ffordd y caiff ei chynllunio, codi safonau, a gosod targedau ar gyfer gwella addysg ac addysgu Cymraeg.

- **Cynllun Hawliau Dynol a Chydraddoldeb Strategol Cyngor Abertawe 2023–2027**

Dyma'r tro cyntaf i ni gyfuno'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) â'n hymrwymiadau Hawliau Dynol. Bydd y cynllun hwn yn amlinellu sut byddwn yn parhau i fodloni'n hymrwymiadau i hawliau dynol a chydraddoldeb, a sut byddwn yn bodloni'n rhwymedigaethau cyfreithiol o fewn Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2025** – Nod Llesiant 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'
- **Cynllun Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru**
- **Cynllun Corfforaethol Cyngor Abertawe 2023–2028**
- **Polisi Enwi Cyngor Abertawe**
- **Cynllun Datblygu Lleol Cyngor Abertawe 2010–2025**
- **Fframwaith Siarter Cwsmeriaid a Safonau Gwasanaeth Cyngor Abertawe**
- **Polisi Cwynion Corfforaethol Cyngor Abertawe**

# Proffil Iaith Abertawe

Daw'r ystadegau canlynol o Gyfrifiad 2021.

Yr amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf ar gyfer Dinas a Sir Abertawe yw 238,500, sy'n golygu mai ni yw'r ail boblogaeth uchaf o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Yn 2021, roedd tua 350 yn llai o breswylwyr Abertawe (3 oed ac yn hŷn) yn siarad Cymraeg nag yn 2011. Cynyddodd nifer y bobl nad oeddent yn siarad Cymraeg 1,100.

| | CYFANSWM ABERTAWE | | |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau iaith Gymraeg:** | **Nifer** | **%** | **% Cymru** |
| Dim sgiliau yn y Gymraeg | 189,400 | 81.7 | 74.8 |
| Gallu deall Cymraeg llafar | 36,149 | 15.6 | 21.9 |
| Gallu siarad Cymraeg | 25,986 | 11.2 | 17.8 |
| Gallu darllen Cymraeg | 26,801 | 11.6 | 17.3 |
| Gallu ysgrifennu Cymraeg | 21,867 | 9.4 | 15.2 |
| Gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg | 19,951 | 8.6 | 14.2 |
| Yr holl breswylwyr arferol 3 oed ac yn hŷn | 231,890 | 100 | 100 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Tablau TS032 i TS036, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.*
*© Hawlfraint y Goron 2022.*

## Newid dros amser

Rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021, roedd cynnydd bychan yn nifer y boblogaeth 3 oed ac yn hŷn o 0.3% (+730) yn Abertawe. Fodd bynnag, roedd gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021 o 2.1% (neu 550 o bobl). Mae hyn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol lle'r oedd gostyngiad o 5.3% dros yr un cyfnod.



Mae'r tabl canlynol yn dangos y newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn wardiau Abertawe, Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021:

| Y cynnydd mwyaf yn ôl % | + (%) | (Nifer) | Y gostyngiad mwyaf yn ôl % | -(%) | (Nifer) |
|---|---|---|---|---|---|
| Glandŵr | +34.7 | +128 | Pen-clawdd | -20.2 | -106 |
| Llandeilo Ferwallt | +26.5 | +71 | Tre-gŵyr | -14.6 | -97 |
| Y Mwmbwls, West Cross | +22.8 | +286 | Wardiau sirol y gogledd* | -12.1 | -589 |
| Penlle'r-gaer | +18.2 | +77 | Treforys | -11.5 | -222 |
| Sgeti | +11.7 | +179 | Cwmbwrla | -6.2 | -32 |
| Gorseinon, Penyrheol | +4.4 | +59 | Penderi | -5.4 | -46 |
| Y Cocyd, Waunarlwydd | +3.7 | +47 | Fairwood | -4.9 | -14 |
| Y Castell, St Thomas, Y Glannau | +2.7 | +43 | Mynydd-bach | -4.0 | -34 |

*Ffynhonnell: Tablau Cyfrifiad 2011 a 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). © Hawlfraint y Goron.*
*Sylwer: * 'Mae 'wardiau sirol y gogledd' yn cynrychioli swm yr ystadegau ar gyfer wardiau newydd Clydach, Llangyfelach, Pontarddulais a Phontlliw a Thircoed (hen wardiau Clydach, Llangyfelach, Mawr a Phontarddulais).*

Mae'r tabl canlynol yn dangos y newid yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn Abertawe yn ôl grŵp oedran, rhwng Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021:

| | 2011 | | 2021 | | Y newid: 11 - 21 | | % y newid yng Nghymru |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Oedran** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Age** |
| 3 – 4 | 770 | 14.6 | 530 | 11.0 | -240 | -31.2 | -27.6 |
| 5 – 15 | 7,360 | 26.0 | 7,539 | 25.8 | +170 | +2.3 | -11.6 |
| 16 – 19 | 1,880 | 14.0 | 2,120 | 17.7 | +240 | +12.8 | -11.1 |
| 20 – 44 | 6,280 | 7.7 | 7,060 | 9.2 | +780 | +12.4 | +2.0 |
| 45 - 64 | 4,520 | 7.5 | 3,990 | 6.6 | -530 | -11.7 | -0.5 |
| 65 - 74 | 2,610 | 11.8 | 2,090 | 8.1 | -520 | -19.9 | +1.8 |
| 75+ | 2,920 | 14.1 | 2,680 | 11.6 | -240 | -8.2 | +0.0 |
| Cyfanswm pob un | 26,330 | 11.4 | 25,980 | 11.2 | -350 | -1.3 | -4.2 |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021 (SYG) a dadansoddiad Llywodraeth Cymru "Y Gymraeg yng Nghymru, Cyfrifiad 2021".*

# Ffynonellau ystadegau a gwybodaeth pellach

- Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru (AGC) yn gofyn cwestiynau gwahanol i'r Cyfrifiad, gan holi pobl am eu rhuglder, pa mor aml y maent yn defnyddio'r Gymraeg ac agweddau eraill ar eu defnydd o'r iaith. Mae'r data diweddaraf ar gyfer Abertawe o'r AGC ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 yn dweud y canlynol wrthym:

- Mae 11% o bobl ‘yn gallu siarad Cymraeg’ (Cymru 18%)
- Mae 7% yn nodi ‘rhywfaint o allu i siarad Cymraeg’ (Cymru 16%)
- Mae 82% yn nodi ‘nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg’ (Cymru 66%)
- Mae 6% yn ystyried eu hunain yn ‘rhugl’ (Cymru 11%)

- Mae’r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn cynnal Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB). Mae canlyniadau’r arolwg hwn fel arfer yn dangos canran uwch o sgiliau Cymraeg pobl na’r Cyfrifiad a’r Arolwg Cenedlaethol oherwydd y gwahaniaethau yn y ffordd y cesglir y data. Mae’r APB yn cael ei ddiweddaru bob chwarter dros gyfnod o 12 mis.

  Mae canlyniadau diweddaraf Abertawe ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2023 yn dweud wrthym:

  - Ffod 19.6% o bobl 3 oed ac yn hŷn yn gallu siarad Cymraeg. Sef 47,100 o bobl.
  - Mae hyn yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru o 29.2%

Ar gyfer proffil llawn Abertawe a’r defnydd o’r Gymraeg, ewch i [www.abertawe.gov.uk/iaithgymraegabertawe](http://www.abertawe.gov.uk/iaithgymraegabertawe)

# Ein Targed

Nod hirdymor Cyngor Abertawe yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn Abertawe, hyrwyddo ymwybyddiaeth a sicrhau presenoldeb y Gymraeg ar draws ein holl gymunedau.

Ein blaenoriaeth gyntaf yw cynnal cyfran y siaradwyr Cymraeg yn Abertawe ar 11.2% (Cyfrifiad 2021). Mae’r targed hwn yn ymateb i’r gostyngiad a welwyd rhwng canlyniadau Cyfrifiad 2011 a Chyfrifiad 2021. Drwy osod y targed hwn, ein nod yw gwrthbwyso’r duedd ar i lawr a diogelu treftadaeth ieithyddol y rhanbarth.

Mae’n bwysig nodi yma, yn ystod oes y strategaeth hon, na fydd gennym ddata pellach o’r Cyfrifiad i wneud cymhariaeth – bydd yn rhaid i ni ddefnyddio canlyniadau’r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (APB) sy’n cael ei ddiweddaru bob



chwarter dros gyfnod o 12 mis. Mae'r canlyniadau hyn bob amser yn dangos canran uwch oherwydd y cwestiynau a ofynnwyd. Byddwn yn casglu'r data o'r APB yn flynyddol i fonitro'r strategaeth hon ac i'n helpu i ddadansoddi ei heffeithiolrwydd.

## Sut byddwn yn gwneud hyn

Rydym yn rhannu gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn strategaeth Cymraeg 2050. Oherwydd hyn, rydym wedi modelu ein strategaeth ar dair thema allweddol Llywodraeth Cymru:

1. **Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg**
2. **Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg**
3. **Creu amodau ffafriol**

Rydym wedi cynnal gweithgareddau ymgysylltu cynnar yn seiliedig ar y tair thema gyda sefydliadau partner Cymraeg a Saesneg. Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu agored â'r cyhoedd a staff, a chynhaliwyd arolwg ymgysylltu cynnar hefyd ar gyfer aelodau'r cyhoedd ac unrhyw bartïon â diddordeb.

Yn ystod yr holl gyfleoedd ymgysylltu, gofynnom i gyfranogwyr beth oedd y prif rwystrau i bob un o dair thema Llywodraeth Cymru yn eu barn nhw, pa gamau neu atebion sydd ar gael o bosib a beth yn union yw llwyddiant yn eu barn nhw.

Mae rhai o'r canfyddiadau allweddol fel a ganlyn:

- **Addysg Gynnar:** Cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ar lefelau cyn oed ysgol a chefnogi rhieni newydd.
- **Hybu balchder yn y Gymraeg:** Annog balchder mewn sgiliau iaith Gymraeg a gwobrwyo defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.
- **Cefnogaeth Gymunedol:** Sefydlu grwpiau a sesiynau sgwrsio cymunedol Cymraeg.
- **Hybu ac amlygrwydd:** Hybu cyfleoedd dysgu Cymraeg a gwella amlygrwydd siaradwyr Cymraeg.
- **Ymgysylltu dyddiol:** Cyflwyno geiriau/ymadroddion Cymraeg bob dydd a sesiynau sgwrsio cymunedol.
- **Hybu ac Arwyddion:** Hybu'r Gymraeg yn fwy a defnyddio arwyddion clir sy'n nodi lle mae'r Gymraeg yn cael ei hannog.
- **Amlygrwydd y Gymraeg:** Gwneud y gymuned Gymraeg yn fwy gweladwy yn Abertawe.
- **Cymhellion Busnes:** Annog busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg drwy system raddio.
- **Cynnwys y Gymraeg mewn prosiectau:** Sicrhau bod prosiectau newydd yn ystyried sut y gellir hybu a chefnogi'r Gymraeg.
- **Partneriaethau:** Cynyddu gwaith partneriaeth a chysylltu â pholisïau allweddol y Cyngor.

Drwy'r gweithgarwch ymgysylltu cynnar hwn a chan ystyried ein hadroddiad a'n hargymhellion ein hunain o'n strategaeth pum mlynedd ddiwethaf, rydym wedi llunio'r ymrwymiadau canlynol er mwyn cyrraedd ein targed.

## Byddwn yn…

- Cyflawni Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg y Cyngor.
- Creu a chefnogi cyfleoedd cymdeithasol i bobl ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg.
- Cynyddu ymwybyddiaeth o gyfleoedd hyfforddiant yn y Gymraeg.
- Helpu i ddatblygu a chreu cyfleoedd i bobl ddefnyddio a datblygu eu sgiliau Cymraeg yn y gweithle.
- Sicrhau bod cymunedau'n gallu cael mynediad cyfartal at wasanaethau'r Cyngor yn Gymraeg neu Saesneg.
- Cryfhau ein perthynas â sefydliadau partner.
- Sicrhau bod goblygiadau'r Gymraeg yn cael eu hystyried yn effeithiol o fewn y penderfyniadau a wnawn a'r gwasanaethau rydym yn eu comisiynu.
- Defnyddio ffynonellau data sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas â'r Gymraeg i lywio ein polisïau.
- Hyrwyddo manteision dysgu a defnyddio'r Gymraeg i bawb.

Mae hon yn strategaeth ar gyfer Abertawe gyfan. Mae ein partneriaid ar gyfer y strategaeth hon yn cynnwys timau mewnol a sefydliadau allanol, gan gynnwys:

- Y Gwasanaethau Addysg
- Y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Gwasanaethau Diwylliannol
- Mudiad Meithrin
- Menter Iaith Abertawe
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Partneriaeth
- Darparwyr gofal plant preifat
- Prifysgol Abertawe
- Yr Urdd
- Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
- RhAG
- Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Byrddau Arholi
- Llywodraeth Cymru.

Yn y cynllun gweithredu cysylltiedig, rydym wedi amlinellu'r gweithgareddau y mae eu hangen i gyflawni ein hymrwymiadau a'n targedau yn y strategaeth hon, gan nodi pa un o themâu Llywodraeth Cymru y mae pob ymrwymiad yn mynd i'r afael â hi.

# Trefniadau monitro

Yn unol â safon 146 o ddeddfwriaeth Hybu'r Gymraeg, ar ddiwedd y cyfnod 5 mlynedd hwn, byddwn yn darparu asesiad ysgrifenedig sy'n asesu i ba raddau yr ydym wedi dilyn y strategaeth ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi. Byddwn yn cyhoeddi'r asesiad hwn ar ein gwefan ac yn cynnwys nifer y siaradwyr Cymraeg yn Abertawe ac oedran y siaradwyr hynny. Byddwn hefyd yn cyhoeddi rhestr o weithgareddau a drefnwyd gennym neu a ariannwyd gennym yn ystod y 5 mlynedd er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.

Bydd y strategaeth a'r cynllun gweithredu hwn yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ni fonitro eu heffeithiolrwydd a gwneud newidiadau i'r cynllun gweithredu neu'r ymrwymiadau yr ydym wedi'u gwneud.